

**Arolygiad o dan Adran 28  
Deddf Addysg 2005**

**Adroddiad ar Ansawdd Addysg yn**

**Ysgol Llangybi  
Llangybi  
Pwllheli  
Gwynedd  
LL53 6DQ**

**Rhif yr Ysgol: 6612066**

**Dyddiadau yr Arolygiad: 24/04/07**

**gan**

**David Martin Cray  
16768**

**Dyddiad Cyhoeddi: 25/05/07**

**O dan rif contract Estyn: 1118306**

**Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2007: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael o'r ysgol. O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad yn ddi-dâl i gategoriâu penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost ailgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad.

Arolygwyd Ysgol Llanybi fel rhan o raglen genedlaethol arolygu ysgolion. Diben arolygu yw nodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion er mwyn iddynt allu gwella ansawdd yr addysg a gynigir a gwella'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion. Bwriedir i arolygu pob ysgol o fewn cylch chwe blynedd hefyd roi mwy o wybodaeth i rieni am berfformiad ysgol eu plentyn.

Cynhaliwyd yr arolygiad o Ysgol Llanybi rhwng 24 a 25 Ebrill 2007 gan dîm annibynnol o arolygwyr, wedi'u harwain gan David Martin Cray. Comisiynwyd yr arolygiad gan Estyn, sef corff statudol sy'n annibynnol ar, ond a ariennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd yn ofynnol i'r tîm adrodd ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion, ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol, ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth a'r cyfraniad a wneir gan yr ysgol at ddatblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol ei disgyblion.

Mae'r raddfa pum pwynt a ddefnyddir i gynrychioli'r holl farnau arolygu yn yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	da gyda nodweddion rhagorol
<b>Gradd 2</b>	nodweddion da a dim diffygion pwysig
<b>Gradd 3</b>	nodweddion da'n gorbwyso diffygion
<b>Gradd 4</b>	rhai nodweddion da, ond diffygion mewn meysydd pwysig
<b>Gradd 5</b>	llawer o ddiffygion pwysig

Mae tri math o arolygiad.

Ar gyfer **pob** arolygiad, ceir adroddiad ysgrifenedig ar saith cwestiwn allweddol. Ar gyfer arolygiadau **byr**, ni cheir unrhyw adroddiadau pwnc. Ar gyfer arolygiadau **safonol**, ceir adroddiadau ar chwe phwnc hefyd. Ar gyfer arolygiadau **llawn**, ceir adroddiadau ar bob pwnc hefyd.

**Estyn sy'n penderfynu pa fath o arolygiad y bydd ysgol yn ei gael, yn bennaf ar sail ei pherfformiad yn y gorffennol. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn cael arolygiad safonol. Mae pob ysgol feithrin, ysgol arbennig, unedau cyfeirio disgyblion ac unrhyw ysgol newydd neu ysgol sydd wedi uno yn cael arolygiad llawn.**

Cafodd yr ysgol hon arolygiad byr.

## Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALIau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Sector cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Sector uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn ymdrin â phedwar cyfnod allweddol fel a ganlyn:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

<b>Cyd-destun</b>	1
<b>Crynodeb</b>	2
<b>Argymhellion</b>	6
<b>Safonau</b>	7
Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	7
<b>Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant</b>	8
Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	8
Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	10
Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?	12
<b>Arweinyddiaeth a rheolaeth</b>	14
Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?	14
Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	14
Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	15
<b>Ymateb yr ysgol i'r arolygiad</b>	16
<b>Atodiadau</b>	17
1 Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol	17
2 Data a dangosyddion ysgol	17
3 Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol	18
4 Sail dystiolaeth yr arolygiad	18
5 Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu	19



## Cyd-destun

### Natur y darparwr

- 1 Mae'r ysgol hon wedi ei lleoli ym mhentref Llangybi, Eifionydd, ac fe gaiff ei chynnal gan Awdurdod Addysg Lleol Gwynedd. Mae ganddi ddalgyrch eang, amaethyddol, Gymreig ei natur. Daw'r mwyafrif o ddisgyblion o deuluoedd cynhenid yr ardal ac ychydig o symudedd ac amddifadedd cymdeithasol sydd yn bodoli. Mae'r disgyblion yn cynrychioli'r ystod lawn o allu ac mae eu cyraeddiadau yn amrywio pan ddechreuant yn yr ysgol.
- 2 Ar hyn o bryd, mae 87 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 13 o blant oed meithrin. Fe'u derbynnir yn rhan amser ar ddechrau'r Medi sydd yn dilyn eu trydydd pen-blwydd ac yn llawn amser y Medi sydd yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae'r niferoedd disgyblion wedi dal yn weddol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf.
- 3 Rhyw bump y cant o'r disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim - ffigwr sydd yn is na'r cyfartaledd sirol (13.8%), a chenedlaethol (19.7%). Dynodir wyth o ddisgyblion (7%), gan gynnwys un ar ddatganiad, yn rhai sydd ganddynt anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ffigwr hwn eto'n sylweddol is na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol.
- 4 Mae cefndir ieithyddol yr ardal yn gadarn Gymreig. Daw 88% o'r disgyblion o aelwydydd ble siaredir y Gymraeg yn iaith gyntaf. Dilynnir rhaglen astudio Cymraeg fel iaith gyntaf yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru. Cyflwynir Saesneg yn ffurfiol yng Nghyfnod Allweddol 2.
- 5 Cafodd yr ysgol ei harolygu diwethaf ym Mehefin 2001 ac mae mwyafrif y staff addysgu yno cyn hynny. Apwyntiwyd y Pennaeth i'w swydd yn Haf 1993

### Blaenoriaethau a thargedau'r ysgol

- 6 Mae blaenoriaethau a thargedau'r ysgol ar gyfer 2006 – 2007 yn cynnwys:
  - Datblygu iaith lafar disgyblion;
  - Datblygu Celf, ynghyd â Dylunio a Thechnoleg ar draws yr ysgol.

## Crynodeb

- 7 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol mewn pedwar allan o'r saith cwestiwn allweddol (Cwestiynau Allweddol 2, 5, 6 a 7). Yng ngweddill y Cwestiynau Allweddol, roedd graddau'r tîm arolygu yn is na'r hyn a ddyfarnodd yr ysgol iddi'i hun.

### Tabl o'r graddau a ddyfarnwyd

- 8 Barnodd y tîm arolygu waith yr ysgol fel a ganlyn:

Cwestiwn allweddol	Gradd arolygu
1 Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?	2
2 Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?	2
3 Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?	2
4 Pa mor dda yw'r gofal, yr arweiniad a'r cymorth i ddysgwyr?	2
5 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth strategol?	2
6 Pa mor dda mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?	2
7 Pa mor effeithlon mae arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?	2

### Safonau

- 9 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Mae eu gallu i ddefnyddio'u medrau cyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cwricwlaidd, yn datblygu'n dda. Defnyddiant eu medrau mathemategol yn gywir ac maent yn dod yn fedrus wrth ddefnyddio offer cyfrifiadurol fel arf ar draws y cwricwlwm.
- 10 Gwna disgyblion y ddau gyfnod allweddol gynnydd da yn eu medrau allweddol. Maent yn gwrando'n dda, yn siarad, darllen ac ysgrifennu'n hyderus, mewn ystod o gyd-destunau cwricwlaidd, yn enwedig felly yn y Gymraeg. Defnyddiant eu medrau mathemategol gyda chywirdeb cynyddol ac fe wnânt ddefnydd da o'u medrau technoleg gwybodaeth i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm.
- 11 Mae cymhwysedd dwyieithog disgyblion yn gadarn iawn.

- 12 O'i chymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru o ran canran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol rhad ac am ddim, mae perfformiad mwyaf diweddar yr ysgol fel a ganlyn:

	2004	2005	2006
<b>Cyfnod Allweddol 1</b>	4	1	1
<b>Cyfnod Allweddol 2</b>	1	1	2

**Allwedd**

- 1- Perfformio yn y 25% uchaf o ysgolion
- 2 – Perfformio yn y 50% uchaf, ond yn is na'r 25% o ysgolion sy'n perfformio orau
- 3 – Perfformio yn y 50% isaf, ond yn uwch na'r 25% o ysgolion isaf eu perfformiad
- 4 – Perfformio yn y 25% isaf o ysgolion

- 13 Ar draws yr ysgol, gwna'r disgyblion gynnydd da ac maent yn dysgu gwybodaeth neu fedrau newydd yn effeithiol. Gwnânt gynnydd da tuag at gyflawni eu potensial.
- 14 Mae medrau personol, cymdeithasol a dysgu'r disgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn mwynhau eu gwersi, yn cydweithio'n effeithiol wrth eu tasgau. Dangosant allu cynyddol i weithio'n annibynnol ac mae eu medrau creadigol yn datblygu'n dda. Nid yw medrau llawysgrifen disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi datblygu'n ddigonol.
- 15 Gwelwyd gan yr arolygwyr bod safonau ymddygiad y disgyblion yn gyffredinol dda drwy'r ysgol.
- 16 Yn y tri thymor llawn cyn yr arolygiad, roedd canran cyfartalog presenoldeb disgyblion o gwmpas 97.5%. Mae hyn yn cymharu'n arbennig o dda gydag ysgolion tebyg eu math yng Nghymru ac o fewn y 25% o rai sydd â'r lefelau isaf o absenoldebau.

**Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

- 17 Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd bod ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

Gradd 1	Gradd 2	Gradd 3	Gradd 4	Gradd 5
10%	90%	--	--	--

- 18 Mae'r canrannau uchod yn sylweddol uwch na'r 79% o wersi a ddyfarnwyd yn Radd 1 a 2 ar gyfer Cymru gyfan yn y flwyddyn 2005-2006. (Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi), ond yn is na'r 17% a gafwyd yn Radd 1.
- 19 At ei gilydd, ceir trefniadau priodol ar gyfer asesu, cofnodi a chyflwyno adroddiadau.
- 20 Mae'r athrawon yn tracio cynnydd academaidd a phersonol pob disgybl. Caiff eu gwaith ei farcio'n rheolaidd ac yn drylwyr. Mae'r athrawon yn eu hannog i



feithrin a datblygu'u sgiliau hunanwerthuso ac i fod yn ymwybodol o'u targedau personol.

- 21 Cyflwynir adroddiadau ysgrifenedig i rieni a gofawyr y plant dan bump, ond nid yw adroddiadau'r plant oed meithrin yn cynnwys sylwadau ar y chwe maes dysgu yn ôl y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Mae'r adroddiadau blynyddol ar gyfer disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn cynnig sylwadau ar eu cyflawniadau yn ogystal â'u datblygiad personol a chymdeithasol. Serch hynny, mae ansawdd y sylwadau braidd yn arwynebol ac ni roddir camau ar gyfer gwella.
- 22 Mae'r profiadau dysgu a gynigir gan yr ysgol yn gymdeithasol gynhwysol ac yn sicrhau cydraddoldeb mynediad a chyfle i bawb. Cyflwynir cwricwlwm eang a chytbwys trwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau diddorol.
- 23 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn dda.
- 24 Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ymestyn eu sgiliau personol a diwylliannol wrth iddynt ymweld ag ystod eang o lefydd diddorol ac addysgiadol. Llwydda'r trefniadau hyn ehangu profiadau cwricwlaidd y disgyblion yn dda.
- 25 Mae'r rhieni yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn codi arian sylweddol ar gyfer prynu adnoddau. Maent hefyd yn ddiwyd yn eu cefnogaeth o'r Urdd. Mae'r llawlyfr ysgol o ansawdd da ac yn cwrdd â'r gofynion. Cafwyd ymateb da i'r cytundeb cartref-ysgol.
- 26 Chwaraea'r ysgol ran bwysig ym mywyd ei chymuned ac mae'r cysylltiadau gydag ysgolion lleol yn dda, gan gynnwys y cysylltiadau bugeiliol a chwricwlaidd sydd yn bodoli gydag Ysgol Uwchradd Glan Môr, Pwllheli.
- 27 Mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi'i sefydlu'n gadarn ac yn hollol amlwg yn narpariaeth yr ysgol.
- 28 Cynhelir sesiynau Amser Cylch a chyflwynir profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm i hyrwyddo addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol.
- 29 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a chodi ymwybyddiaeth y disgyblion am faterion sy'n ymwneud â dinasyddiaeth fyd-eang a chynladwyaeth yn dda.
- 30 Mae'r disgyblion hyn yn cael rhai cyfleoedd i drefnu a chynnal gweithgareddau er mwyn datblygu eu medrau menter, megis rhedeg y siop ffrwythau wythnosol. Serch hynny, mae lle i ddatblygu'r medrau yma ymhellach.
- 31 Mae ansawdd y gofal, yr arweiniad a'r cymorth a roddir i'r disgyblion yn dda. Maent yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi a'u parchu. Yn sgil trafodaethau'r tîm arolygu gyda grwpiau o ddisgyblion nodwyd eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i droi'n ddi-oed at y pennaeth a'r staff am help a chyfarwyddyd.

- 32 Mae'r polisi amddiffyn plant yn hysbys i bawb a gyflogir o fewn yr ysgol. Mae'r trefniadau yn adlewyrchu gofynion statudol Cymru-gyfan ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant priodol.
- 33 Caiff aelodau'r Cyngor Ysgol gyfleoedd da i ddylanwadu ar faterion sy'n effeithio ar eu bywyd beunyddiol yn yr ysgol.
- 34 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn briodol ac yn bodloni gofynion y Côt Ymarfer. Maent yn derbyn cynhaliadau dda a chânt fynediad llawn a chyfleoedd i fanteisio ar holl agweddau'r cwricwlwm.
- 35 Darperir cynlluniau addysg unigol ar eu cyfer, ond nid ydynt yn nodi deilliannau er sicrhau arweiniad clir ar gyfer y camau nesaf yn dysgu'r disgyblion.

### **Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- 36 Mae'r pennaeth, yn cynnig trwy esiampl, ymdeimlad clir o bwrpas a chyfeiriad strategol ar gyfer datblygiad yr ysgol. Derbynia gefnogaeth dda gan y staff addysgu ac fe ysgwyddant gyfran dda o gyfrifoldebau, gan gynnwys y gwaith o fonitro safonau.
- 37 Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda a chyflawnant eu cyfrifoldebau rheoli a chyfreithiol yn effeithiol. Rhoddant gynhaliadau a chymorth da i'r pennaeth wrth lywio cyfeiriad strategol yr ysgol.
- 38 Cyflawna'r ysgol ei chyfrifoldebau o ran gofynion amser addysgu, ond ceir rhai mân ddiffygion yn adroddiad blynyddol y corff llywodraethol i rieni.
- 39 Mae diwylliant hunanfeiriadol wedi'i hen sefydlu o fewn yr ysgol a bu trefniadau monitro ar waith ers amser erbyn hyn. Mae'r gweithdrefnau oll yn cyfrannu'n effeithiol at wneud gwelliannau.
- 40 Mae ansawdd yr adroddiad hunan-arfarnu a gyflwynwyd i'r arolygwyr cyn yr arolygiad, yn dda.
- 41 Mae gan gynllun datblygu'r ysgol gefnogaeth lawn y staff a'r llywodraethwyr fel ei gilydd. Tra bod y blaenoriaethau cyfredol yn deillio'n glir o brosesau hunan-arfarnu'r ysgol, nid yw'r Cynllun yn pwysleisio'n ddigonol y datblygiad canolog a hirdymor o flaenoriaethau eraill mae'r ysgol yn eu hystyried yn rhai sydd angen sylw arnynt.
- 42 Gwnaeth yr ysgol gynnydd da wrth fynd i'r afael â'r materion allweddol a godwyd gan yr arolygwyr yn dilyn arolygiad 2001 ac fe lwyddwyd i gynnal safonau da.
- 43 Mae gan yr holl staff gymwysterau addas i gyflawni'r cyfrifoldebau a amlygir yn eu disgrifiadau swydd a gwneir defnydd da o'u harbenigeddau. Mae'r

cymorthyddion yn cydweithio'n agos gyda'r athrawon i gynnal y disgyblion dan eu gofal a gwnânt gyfraniad arwyddocaol i'r dysgu a'r addysgu.

- 44 At ei gilydd, mae'r ystod o adnoddau sydd ar gael ar gyfer cynnal cwricwlwm y disgyblion yn dda ac mae'n gweddu i'w hanghenion a'u hystod oed. Ceir cyflenwad da o gyfrifiaduron, ond mae'r un bwrdd gwyn rhyngweithiol sydd ar gael yn annigonol.
- 45 Mae cyfleusterau addas yn yr ysgol ar gyfer yr anabl.
- 46 Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cael eu cysylltu'n effeithiol â'r blaenoriaethau a'r targedau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r gyllideb yn dynn; caiff ei monitro'n ofalus ac mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Argymhellion

- A1 Gwella safon llawysgrifen disgyblion Cyfnod Allweddol 2;
- A2 Cysylltu'n well flaenoriaethau canolig a hir-dymor y cynllun datblygu ysgol gyda deilliannau prosesau hunan-arfarnu'r ysgol;
- A3 Sicrhau bod y cynlluniau addysg unigol a ddarperir ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn nodi'n glir y deilliannau mewn dysgu;
- A4 Gwella ansawdd yr adroddiadau a gyflwynir i rieni ar gynnydd eu plant, ac ar gyfer y plant oed meithrin, sicrhau eu bod yn cynnwys sylwadau yn ôl chwe maes y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

Mae'r corff llywodraethol yn gyfrifol am ddiwygio'i gynllun datblygu cyfredol i ymgorffori camau i ymateb i'r argymhellion ymhen 45 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad, gan ddangos yr hyn y mae'r ysgol am ei wneud ynglŷn â'r argymhellion. Bydd y cynllun hwn, neu grynodedb ohono, yn cael ei ddsbarthu i bob rhiant yn yr ysgol.

## Safonau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda y mae dysgwyr yn cyflawni?

#### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 47 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol i farn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu. Nid yw'r arolygwyr yn cytuno bod y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion yn ddigon uchel i gyfiawnhau dyfarnu Gradd 1 ar gyfer y cwestiwn allweddol hwn.
- 48 Mae'r disgyblion yn cyflawni safonau da o ran eu gwybodaeth a'u medrau ac yn cyrraedd y targedau a bennir ar eu cyfer. Gwna'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynnydd da o fewn eu gallu a'u hoedran.
- 49 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump oed yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Mae eu gallu i ddefnyddio'u medrau cyfathrebu mewn gwahanol gyd-destunau cwricwlaidd, yn datblygu'n dda. Defnyddiant eu medrau mathemategol yn gywir ac maent yn dod yn fedrus wrth ddefnyddio offer cyfrifiadurol fel arf ar draws y cwricwlwm.
- 50 Gwna disgyblion y ddau gyfnod allweddol gynnydd da yn eu medrau allweddol. Maent yn gwrando'n dda, yn siarad, darllen ac ysgrifennu'n hyderus, mewn ystod o gyd-destunau cwricwlaidd, yn enwedig felly yn y Gymraeg. Defnyddiant eu medrau mathemategol gyda chywirdeb cynyddol ac fe wnânt ddefnydd da o'u medrau technoleg gwybodaeth i gefnogi eu dysgu ar draws y cwricwlwm.
- 51 Mae cymhwysedd dwyieithog disgyblion yn gadarn iawn. Yng Nghyfnod Allweddol 2, dônt i fedru defnyddio eu medrau llafaredd, darllen ac ysgrifennu Cymraeg a Saesneg yn effeithiol mewn amrediad o gyd-destunau cwricwlaidd.
- 52 Yng Nghyfnod Allweddol 1 yn 2006, yn ôl asesiadau athrawon, cyrhaeddodd 100% o'r disgyblion lefel 2 neu'n uwch ym mhynciau craidd Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn 2005 roedd y ffigwr eto yn 100% (Cymru 80.9%; Gwynedd 83%) ac yn 2004 roedd yn 66.7% (Cymru 80%; Gwynedd 82%). Roedd canlyniadau'r ysgol ar gyfer 2006 yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol (2005) ym mhob un o'r pynciau.
- 53 Yng Nghyfnod Allweddol 2 yn 2006, yn ôl asesiadau athrawon, cyrhaeddodd 83.3% o'r disgyblion yn yr ysgol lefel 4 neu'n uwch, ym mhynciau craidd Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Yn 2005 roedd yn 90.9% (Cymru 74.3%; Gwynedd 76.3%) ac yn 2004 y ffigwr oedd 100% (Cymru 72%; Gwynedd 74%). Roedd y canlyniadau ar gyfer 2006 yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol (2005) ym mhob pwnc heblaw am wyddoniaeth oedd ychydig bach yn is.
- 54 Yn y ddau gyfnod allweddol, dros amser, gwelwyd nad oes yma fwlch arwyddocaol rhwng perfformiad bechgyn a genethod.

- 55 O'i chymharu ag ysgolion tebyg yng Nghymru o ran canran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol rhad ac am ddim, mae perfformiad mwyaf diweddar yr ysgol fel a ganlyn:

	2004	2005	2006
<b>Cyfnod Allweddol 1</b>	4	1	1
<b>Cyfnod Allweddol 2</b>	1	1	2

**Allwedd**

- 1- Perfformio yn y 25% uchaf o ysgolion
- 2 – Perfformio yn y 50% uchaf, ond yn is na'r 25% o ysgolion sy'n perfformio orau
- 3 – Perfformio yn y 50% isaf, ond yn uwch na'r 25% o ysgolion isaf eu perfformiad
- 4 – Perfformio yn y 25% isaf o ysgolion

- 56 Ar draws yr ysgol, gwna'r disgyblion gynnydd da ac maent yn dysgu gwybodaeth neu fedrau newydd yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o bwrpas y tasgau a osodir iddynt ac fel y dânt yn hŷn, mae eu gallu i ddadansoddi cryfderau a gwendidau eu gwaith yn datblygu'n dda. Gwnânt gynnydd da tuag at gyflawni eu potensial.
- 57 Mae medrau personol, cymdeithasol a dysgu'r disgyblion yn datblygu'n dda. Maent yn mwynhau eu gwersi, yn cydweithio'n effeithiol wrth dasgau ac mae'r mwyafrif mawr yn barod i ddyfalbarhau os ydynt yn cael anhawster. Mae lefelau cymhelliant yn gyffredinol uchel. Dangosant allu cynyddol i weithio'n annibynnol ac mae eu medrau creadigol yn datblygu'n dda. Nid yw medrau llawysgrifen disgyblion Cyfnod Allweddol 2 wedi datblygu'n ddigonol.
- 58 Gwelwyd gan yr arolygwyr bod safonau ymddygiad y disgyblion yn gyffredinol dda drwy'r ysgol.
- 59 Yn y tri thymor llawn cyn yr arolygiad, roedd canran cyfartalog presenoldeb disgyblion o gwmpas 97.5%. Mae hyn yn cymharu'n arbennig o dda gydag ysgolion tebyg eu math yng Nghymru ac o fewn y 25% o rai sydd â'r lefelau isaf o absenoldebau. Mae'r disgyblion yn dod yn brydlon i'r ysgol.
- 60 Mae ymwybyddiaeth disgyblion o faterion cyfle cyfartal yn dda. Maent yn parchu amrywiaeth mewn cymdeithas ac mae ganddynt wybodaeth briodol am grefyddau a diwylliannau eraill.
- 61 Mae gan ddisgyblion ddealltwriaeth dda o'u cymuned ac o'u cyfrifoldebau hwy tuag ati. Maent yn ymwybodol o fyd gwaith ac o rai diwydiannau a busnesau'r ardal.

**Ansawdd yr addysg a'r hyfforddiant**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor effeithiol yw'r addysgu, yr hyfforddi a'r asesu?**

**Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

62 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

63 Yn y gwersi a arsylwyd, barnwyd bod ansawdd yr addysgu fel a ganlyn:

<b>Gradd 1</b>	<b>Gradd 2</b>	<b>Gradd 3</b>	<b>Gradd 4</b>	<b>Gradd 5</b>
10%	90%	--	--	--

64 Mae'r canrannau uchod yn sylweddol uwch na'r 79% o wersi a ddyfarnwyd yn Radd 1 a 2 ar gyfer Cymru gyfan yn y flwyddyn 2005-2006. (Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi), ond yn is na'r 17% a gafwyd yn Radd 1.

65 Arsylwyd ar addysgu da ar draws yr ysgol. Mae gan yr athrawon berthynas ofalgar a pharchus gyda'r disgyblion; maent yn eu hadnabod yn dda ac yn eu gwerthfawrogi fel unigolion. Defnyddia'r athrawon ganmoliaeth ac anogaeth ar gyfer meithrin hunan-barch ac mae hyn yn cael dylanwad cadarnhaol ar agwedd y disgyblion tuag at eu gwaith.

66 Caiff cyfleoedd cyfartal eu hyrwyddo o fewn yr ysgol. Diwellir anghenion disgyblion unigol, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

67 Mae gan yr athrawon wybodaeth dda o'r meysydd maent yn eu haddysgu a llwyddant i greu amgylchfyd gwaith dymunol, ysgogol a threfnus. Defnyddiant ystod o strategaethau i sicrhau bod disgyblion yn ymroi i weithio'n bwrpasol a hyderus.

68 Mae nodweddion rhagorol i'r addysgu yn cynnwys cyflwyniadau arbennig o gyffrous a strategaethau hynod effeithiol ar gyfer meithrin annibyniaeth y disgyblion a'u hannog i wneud dewisiadau a phenderfyniadau eu hunain.

69 Yn y gwersi lle mae'r addysgu yn dda, rhennir yr amcanion dysgu gyda'r disgyblion a cheir cyfarwyddiadau ac esboniadau eglur. Gwneir cyfeiriadau cyson at y dysgu blaenorol er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad. Mae cyflymdra'r gwersi hyn yn effeithiol a cheir defnydd da o amser. Ceir cwestiynu medrus, sy'n cymhell y disgyblion i feddwl ac i archwilio materion gyda manylder a dyfnder. Llwydda'r athrawon i gyflwyno gweithgareddau gwahaniaethol sy'n diwallu gofynion a diddordebau pob disgybl yn y dosbarth.

70 Mae'r athrawon yn paratoi eu gwersi yn drylwyr gan ddefnyddio ystod helaeth o adnoddau ac arteffactau i gynnal ac ysgogi diddordeb.

71 Defnyddir iaith raenus wrth addysgu'r disgyblion gan fanteisio ar bob cyfle i ymestyn a chyfoethogi eu hiaith. Maent yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion i ddefnyddio'u medrau dwyieithog yn effeithiol mewn gwahanol bynciau ar draws y cwricwlwm.

72 At ei gilydd, ceir trefniadau priodol ar gyfer asesu, cofnodi a chyflwyno adroddiadau.

- 73 Cedwir trosolwg manwl ar gynnydd y plant dan bump oed drwy'r defnydd o lyfrynnau megis Y Cam Cynta', a'r Proffil Plant Dan Bump, sy'n rhoi sylw i'r chwe maes dysgu. Mae hyn, ynghyd â'r asesiad sylfaen, yn cynnig man cychwyn defnyddiol ar gyfer mesur cynnydd a datblygiad pellach.
- 74 Mae'r athrawon yn tracio cynnydd academaidd a phersonol pob disgybl. Dilynnir canllawiau'r Awdurdod Addysg Lleol o ran cofnodi cynnydd ac arenwi camau nesaf y disgyblion yn y pynciau craidd a sylfaen. Mae'r trefniadau hyn yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y cynllunio ac ansawdd y dysgu.
- 75 Caiff gwaith y disgyblion ei farcio'n rheolaidd ac yn drylwyr. At ei gilydd, cynhwysir sylwadau sy'n cynnig arweiniad i'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith. Mae'r athrawon yn eu hannog i feithrin a datblygu'u sgiliau hunanwerthuso ac i fod yn ymwybodol o'u targedau personol.
- 76 Estynnir gwahoddiad i'r rhieni i drafod addysg a chynnydd eu plant dwywaith y flwyddyn. Cyflwynir adroddiadau ysgrifenedig i rieni a gofalwyr y plant dan bump, ond nid yw adroddiadau'r plant oed meithrin yn cynnwys sylwadau ar y chwe maes dysgu yn ôl y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Mae'r adroddiadau blynyddol ar gyfer disgyblion y ddau gyfnod allweddol yn cynnig sylwadau ar eu cyflawniadau yn ogystal â'u datblygiad personol a chymdeithasol. Serch hynny, mae ansawdd y sylwadau braidd yn arwynebol ac ni roddir camau ar gyfer gwella.
- 77 Ymatebodd y rhieni yn bositif wrth eu holi am barodrwydd yr ysgol i wrando ar unrhyw faterion sy'n eu poeni am gynnydd eu plant.

### **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda y mae profiadau dysgu yn cwrdd ag anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?**

#### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

- 78 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol i farn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu i'r graddau bod yr ysgol wedi rhoi Gradd 1 i'r cwestiwn allweddol hwn. Nid yw'r arolygwyr yn cytuno bod y ddarpariaeth yn cynnwys nodweddion sydd yn rhagorol.
- 79 Mae'r profiadau dysgu a gynigir gan yr ysgol yn gymdeithasol gynhwysol ac yn sicrhau cydraddoldeb mynediad a chyfle i bawb. Cyflwynir cwricwlwm eang a chytbwys trwy gyfrwng amrywiaeth o weithgareddau diddorol.
- 80 Mae ansawdd cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant dan bump yn briodol i'w hanghenion ac mae'r plant yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant. Darperir ystod o weithgareddau cyffrous a phwrpasol sy'n llwyddo i feithrin eu chwilfrydedd. Mae'r cynlluniau'n drylwyr ac yn arwain yn naturiol at raglenni astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol.
- 81 At ei gilydd, darperir polisïau a chynlluniau gwaith cwricwlaidd sy'n cofnodi'r bwriadau tymor hir a chanolig er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol yn y dysgu. Fodd bynnag, ceir peth anghysondeb o ran ansawdd rhai o'r

cynlluniau. Defnyddir cylchoedd o themâu fel dull o drefnu'r cwricwlwm a llwydda'r athrawon i gyplysu ystod o weithgareddau trawsgwricwlaidd diddorol ac ysgogol o fewn pob thema.

- 82 Mae'r profiadau dysgu yn llwyddo i ddatblygu'r medrau sylfaenol a medrau allweddol y disgyblion yn dda.
- 83 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol a chymdeithasol y disgyblion yn dda. Darperir gwasanaethau o gydaddoli sy'n cydymffurfio â'r gofynion ac sydd wedi'u seilio'n gadarn ar egwyddorion Cristnogol.
- 84 Ymdrecha'r athrawon i feithrin parch a chwarteisi ymysg y disgyblion a gweithiant yn ddiwyd i hyrwyddo gwerthoedd moesol cadarn. Caiff y disgyblion eu hannog i ymroi i godi arian ar gyfer ystod o elusennau cenedlaethol megis Tŷ Gobaith yn ogystal â rhai rhyngwladol.
- 85 Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ymestyn eu sgiliau personol a diwylliannol wrth iddynt ymweld ag ystod o lefydd diddorol ac addysgiadol. Maent yn cynnwys ymweliadau lleol, megis i Amgueddfa Llanystumdwy a Gorsaf Bad Achub, Pwllheli yn ogystal â theithiau ymhell oddi ar safle'r ysgol sef Jodrell Bank a 'Cadbury's World'. Mae'r ddarpariaeth hefyd yn cynnwys cyfleoedd i'r plant hŷn fynychu cyrsiau preswyl, cystadlu mewn cystadlaethau a gweithio ochr yn ochr gydag artistiaid, megis y prosiect diweddaraf gyda Cefyn Burgess. Llwydda'r trefniadau hyn ehangu profiadau cwricwlaidd y disgyblion yn dda.
- 86 Mae'r rhieni yn gefnogol i waith yr ysgol ac yn codi arian sylweddol ar gyfer prynu adnoddau. Maent hefyd yn ddiwyd yn eu cefnogaeth o'r Urdd. Mae'r llawlyfr ysgol o ansawdd da ac yn cwrdd â'r gofynion. Cafwyd ymateb da i'r cytundeb cartref-ysgol.
- 87 Chwarae'r ysgol ran bwysig ym mywyd ei chymuned ac mae'r cysylltiadau gydag ysgolion lleol yn dda, gan gynnwys y cysylltiadau bugeiliol a chwricwlaidd sydd yn bodoli gydag Ysgol Uwchradd Glan Môr, Pwllheli.
- 88 Darperir cyfleoedd pwrpasol ar gyfer hyrwyddo medrau dwyieithog y disgyblion. Mae'r amrywiaeth o brofiadau a gynigir, gan gynnwys y gwaith a seiliwyd ar y ffilm 'Etifeddiaeth' a'r dathliadau yn olrhain hanes yr ysgol, yn sicrhau bod gan y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn o'u hetifeddiaeth a'r diwylliant sy'n perthyn i'w milltir sgwâr a Chymru gyfan. Mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi'i sefydlu'n gadarn ac yn hollol amlwg yn narpariaeth yr ysgol.
- 89 Mae gan yr ysgol bolisi ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol a chynlluniau effeithiol ar gyfer pob thema. Mae'r athrawon yn gweithio'n ddiwyd i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion am bwysigrwydd bwytia'n iach. Mae'r ysgol eisoes wedi ymuno â chynllun Ysgolion Iach, Gwynedd a Môn. Cynhelir sesiynau Amser Cylch a chyflwynir profiadau dysgu ar draws y cwricwlwm i hyrwyddo addysg bersonol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol.



- 90 Rhoddir cyfleoedd i'r disgyblion ddysgu am ddiwylliannau sy'n perthyn i wledydd eraill o fewn rhaglenni astudio cerdd, celf, daearyddiaeth a'r maes llafur cytûn, addysg grefyddol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a chodi ymwybyddiaeth y disgyblion am faterion sy'n ymwneud â dinasyddiaeth fyd-eang yn dda. Arweiniodd, er enghraifft, ymweliad grŵp o blant o Belarws at drafodaethau am drychineb Chernobyl. Yn sgil y gwaith ar y thema 'Dŵr' rhoddwyd cyfle i'r disgyblion ddysgu am waith yr elusen 'Water Aid' ac am rhai o drafferthion pobl y trydydd byd.
- 91 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysg gynaliadwy mewn pynciau megis daearyddiaeth a'u hymweliadau i ganolfannau ail-gylchu yn hyrwyddo dealltwriaeth a gwybodaeth y disgyblion am faterion lleol, cenedlaethol a byd eang. Mae'r ysgol yn gweithredu yn gynaliadwy o ddydd-i-ddydd.
- 92 Mae'r disgyblion hŷn yn cael rhai cyfleoedd i drefnu a chynnal gweithgareddau er mwyn datblygu eu medrau menter, megis rhedeg y siop ffrwythau wythnosol. Serch hynny, mae'r ysgol yn cydnabod trwy ei chynlluniau yr angen i ddatblygu hyn ymhellach.
- 93 Anogir y disgyblion o oed cynnar i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain fel y datblygant yn ddysgwyr annibynnol, gan osod y seiliau ar gyfer dysgu gydol oes.

#### **Cwestiwn Allweddol 4: Pa mor dda yw'r gofal, y cyfarwyddyd a'r gefnogaeth i ddysgwyr?**

##### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

- 94 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn wahanol i farn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu i'r graddau bod yr ysgol wedi rhoi Gradd 1 i'r cwestiwn allweddol hwn. Nid yw'r arolygwyr yn cytuno bod y ddarpariaeth yn cynnwys nodweddion sydd yn rhagorol.
- 95 Mae ansawdd y gofal, yr arweiniad a'r cymorth a roddir i'r disgyblion yn dda. Maent yn hapus yn yr ysgol ac yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi a'u parchu. Yn sgil trafodaethau'r tîm arolygu gyda grwpiau o ddisgyblion nodwyd eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i droi'n ddi-oed at y pennaeth a'r staff am help a chyfarwyddyd.
- 96 Mae'r plant meithrin yn ymgartrefu'n gyflym yn yr ysgol. Rhoddir cyfle iddynt ymweld â'r ysgol am brynhawn cyn iddynt ddechrau'n rhan amser. Trefnir cyfarfodydd buddiol gyda'r rhieni lle y cyflwynir y llyfryn gwybodaeth 'Dechrau'r Ysgol' iddynt.
- 97 Ceir ystod o bolisiâu a gweithdrefnau priodol ar gyfer sicrhau iechyd a lles cyffredinol y disgyblion pan fyddant yng ngofal yr ysgol. Mae'r polisi amddiffyn plant yn hysbys i bawb a gyflogir o fewn yr ysgol. Mae'r trefniadau yn adlewyrchu gofynion statudol Cymru-gyfan ac mae'r staff wedi cael hyfforddiant priodol.

- 98 Hyrwyddir iechyd a lles y disgyblion mewn pynciau cwricwlaidd megis gwyddoniaeth ac addysg gorfforol a rhoddir cyfleoedd iddynt ymuno â chlwb cerdded yr ysgol. Mae'r ysgol yn rhan o gynllun peilot Bwydlenni Iach Ysgolion Cynradd Gwynedd.
- 99 Mae cysylltiadau'r ysgol gydag asiantaethau arbenigol yr ardal megis yr heddlu, wedi'u sefydlu'n gadarn ac yn ychwanegu at, a chyfoethogi'r rhaglen addysgu.
- 100 Caiff aelodau'r Cyngor Ysgol gyfleoedd da i ddylanwadu ar faterion sy'n effeithio ar eu bywyd beunyddiol yn yr ysgol. Ymfalchiant yn eu rôl fel cynrychiolwyr eu cymuned.
- 101 Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn briodol ac yn bodloni gofynion y Côd Ymarfer. Maent yn derbyn cynhaliadaeth dda a chânt fynediad llawn a chyfleoedd i fanteisio ar holl agweddau'r cwricwlwm.
- 102 Darperir cynlluniau addysg unigol ar eu cyfer, ond nid ydynt yn nodi deilliannau er sicrhau arweiniad clir ar gyfer y camau nesaf yn dysgu'r disgyblion. Cynhelir cyfarfodydd gyda'r rhieni er mwyn rhannu cynnwys y cynlluniau ac i drafod cynnydd eu plant.
- 103 Ceir perthynas dda rhwng yr ysgol ac Uned Ysgol Cymerau yn ogystal â'r gwasanaethau cynhaliadaeth broffesiynol.
- 104 Mae'r ddarpariaeth ac arferion yr ysgol ar gyfer meithrin ymagweddau positif ymhlith y disgyblion ar faterion megis cydnabod amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb ar sail hil, anabledd, cefndir a rhyw, yn dda. Rhoddir pwyslais ar addysgu'r disgyblion am bwysigrwydd goddefgarwch a pharchu eraill. Mae'r polisi cyfle cyfartal yn sicrhau bod pob unigolyn yn cael mynediad llawn i bob agwedd o fywyd a gwaith yr ysgol. Ni chaiff polisi cydraddoldeb hiliol yr ysgol ei fonitro o ran effeithiolrwydd yn flynyddol.
- 105 Mae mesurau priodol mewn lle i ddileu unrhyw ymddygiad gormesol ac fe weithredir systemau da ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb y disgyblion. Cedwir y cofrestrau yn unol â'r gofynion statudol.
- 106 Mae'r ysgol yn cymryd camau rhesymol i sicrhau nad yw disgyblion anabl yn dioddef o gael eu trin yn llai ffafriol. Mae cynllun hygyrchedd wedi'i baratoi yn ôl y gofynion.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

### Cwestiwn Allweddol 5: Pa mor effeithiol yw arweinyddiaeth a rheolaeth strategol?

#### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 107 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 108 Mae'r pennaeth, yn cynnig trwy esiampl, ymdeimlad clir o bwrpas a chyfeiriad strategol ar gyfer datblygiad yr ysgol. Seilir gweithdrefnau dydd-i-ddydd ar egwyddorion cadarn a gwerthoedd cytûn; hyrwyddir cydraddoldeb i bawb a gwerthfawrogir cyfraniad pob unigolyn. Derbynia'r pennaeth gefnogaeth dda gan y staff addysgu ac fe ysgwyddant gyfran dda o gyfrifoldebau, gan gynnwys y gwaith o fonitro safonau.
- 109 Mae gan yr ysgol ymwybyddiaeth dda o flaenoriaethau lleol a rhai Llywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'u hadlewyrchir yn ei pholisïau a'i harferion.
- 110 Mae'r ysgol wedi cynllunio'n effeithiol ar gyfer y diwygiadau o ran gofynion baich gwaith athrawon. Gwnaed trefniadau rheoli perfformiad priodol a gosodwyd amcanion er mwyn meithrin datblygiad proffesiynol parhaus staff tra ar yr un pryd yn rhoi sylw i flaenoriaethau'r ysgol ei hun. Mae trefniadau da hefyd ar gyfer darparu cynhaliaeth a hyfforddiant i'r athrawes newydd ei chymhwyso.
- 111 Gosodir targedau ysgol-gyfan sy'n heriol, ond cyraeddadwy, ac maent yn seiliedig ar adnabyddiaeth yr ysgol o'i disgyblion a'u perfformiad tebygol.
- 112 Mae'r llywodraethwyr yn adnabod yr ysgol yn dda a chyflawnant eu cyfrifoldebau rheoli a chyfreithiol yn effeithiol. Mae ganddynt ystod dda o gefndiroedd ac arbenigedd, a gwna'r ysgol ddefnydd da ohonynt. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o berfformiad yr ysgol a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar hynny. Rhoddant gynhaliaeth a chymorth da i'r pennaeth wrth lywio cyfeiriad strategol yr ysgol.
- 113 Cyflawna'r ysgol ei chyfrifoldebau o ran gofynion amser addysgu, ond ceir rhai mân ddiffygion yn adroddiad blynyddol y corff llywodraethol i rieni.

### Cwestiwn Allweddol 6: Pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr yn arfarnu ac yn gwella ansawdd a safonau?

#### Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig

- 114 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.

- 115 Mae diwylliant hunanfeirniadol wedi'i hen sefydlu o fewn yr ysgol a bu trefniadau monitro ar waith ers amser erbyn hyn. Mae gan yr arweinyddion cwricwlaidd wybodaeth dda am safonau yn eu gwahanol feysydd cyfrifoldeb ac fe ddefnyddiant nifer o strategaethau ar gyfer casglu tystiolaeth, gan gynnwys arsylwi gwersi ei gilydd, ac archwilio gwaith disgyblion. Gwelwyd bod y cofnodion a gedwir ganddynt o arsylwadau ar lawr y dosbarth o safon uchel. Caiff data perfformiad ei gasglu a'i ddadansoddi'n ofalus, ac fe wneir defnydd effeithiol o wybodaeth meincnodi ymhob un o'r cyfnodau allweddol. Mae'r gweithdrefnau yma oll yn cyfrannu'n effeithiol at wneud gwelliannau.
- 116 Rhoddir ystyriaeth i lais y disgyblion yn natblygiad yr ysgol trwy'r Cyngor Ysgol a hefyd, trwy holiaduron a gwblhawyd ganddynt. Fe anogir rhieni i alw yn yr ysgol i drafod yn bersonol unrhyw bryderon sydd ganddynt am weithdrefnau neu'r ddarpariaeth.
- 117 Mae ansawdd yr adroddiad hunan-arfarnu a gyflwynwyd i'r arolygwyr cyn yr arolygiad, yn dda. Cyfeirir at ystod o ffynonellau tystiolaeth a chafodd cryfderau'r ysgol a'r meysydd y mae angen eu datblygu eu dynodi'n effeithiol.
- 118 Mae gan gynllun datblygu'r ysgol gefnogaeth lawn y staff a'r llywodraethwyr fel ei gilydd. Dynodwyd cyfrifoldebau gweithredol yn eglur ar gyfer unigolion a chaiff adnoddau hefyd eu clustnodi i gynnal a chefnogi datblygiadau. Tra bod y blaenoriaethau cyfredol yn deillio'n glir o brosesau hunan-arfarnu'r ysgol, nid yw'r Cynllun yn pwysleisio'n ddigonol y datblygiad canolig a hirdymor o flaenoriaethau eraill mae'r ysgol yn eu hystyried yn rhai sydd angen sylw arnynt.
- 19 Roedd y tîm arolygu yn cytuno gyda barn yr ysgol mewn pedwar allan o'r saith Cwestiwn Allweddol. Dyfarnwyd graddau is ar gyfer Cwestiynau Allweddol 1, 3 and 4.
- 120 Gwnaeth yr ysgol gynnydd da wrth fynd i'r afael â'r materion allweddol a godwyd gan yr arolygwyr yn dilyn arolygiad 2001 ac fe lwyddwyd i gynnal safonau da.

### **Cwestiwn Allweddol 7: Pa mor effeithlon y mae'r arweinwyr a rheolwyr wrth ddefnyddio adnoddau?**

#### **Gradd 2: Nodweddion da a dim diffygion pwysig**

- 121 Mae canfyddiadau'r tîm arolygu yn cyd-fynd â barn yr ysgol yn ei hadroddiad hunan-arfarnu.
- 122 Mae gan yr holl staff gymwysterau addas i gyflawni'r cyfrifoldebau a amlygir yn eu disgrifiadau swydd a gwneir defnydd da o'u harbenigeddau. Mae'r cymorthyddion yn cydweithio'n agos gyda'r athrawon i gynnal y disgyblion dan eu gofal a gwnânt gyfraniad arwyddocaol i'r dysgu a'r addysgu.

- 123 Cynlluniwyd y trefniadau ar gyfer amser digyswllt i athrawon yn ofalus; defnyddir yr amser yn effeithiol a chaiff effaith gadarnhaol ar waith yr ysgol. Mae'r athrawon yn mynychu ystod o sesiynau hyfforddiant er mwyn diweddarau eu gwybodaeth a'u medrau, a rhennir gwybodaeth yn effeithiol trwy adborth mewn cyfarfodydd staff a dyddiau cau ar gyfer hyfforddiant mewn swydd.
- 124 At ei gilydd, mae'r ystod o adnoddau sydd ar gael ar gyfer cynnal cwricwlwm y disgyblion yn dda ac mae'n gweddu i'w hanghenion a'u hystod oed. Mae eu hansawdd yn dda; maent yn hygyrch ac fe'u perchir gan staff a disgyblion fel ei gilydd. Ceir cyflenwad da o gyfrifiaduron, ond mae'r un bwrdd gwyn rhyngweithiol sydd ar gael yn annigonol.
- 125 Mae adeiladau a thir yr ysgol o ansawdd da ac yn addas ar gyfer addysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Cânt eu cynnal a'u cadw'n dda a'u defnyddio'n effeithiol.
- 126 Mae cyfleusterau addas yn yr ysgol ar gyfer yr anabl.
- 127 Mae'r arddangosiadau lliwgar ar waliau'r ystafelloedd dosbarth o ansawdd uchel a gwnânt gryn gyfraniad at greu amgylchedd symbylus ac at ddathlu gwaith disgyblion.
- 128 Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cael eu cysylltu'n effeithiol â'r blaenoriaethau a'r targedau yng nghynllun datblygu'r ysgol. Mae'r gyllideb yn dynn; caiff ei monitro'n ofalus ac mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

### **Ymateb yr ysgol i'r arolygiad**

Dymuna Llywodraethwyr, staff a disgyblion yr ysgol ddiolch yn ddiffuant i'r tîm arolygu am eu cwrteisi a'u gwaith trylwyr yn ystod yr arolygiad. Ar sail ein perfformiad yn y gorffennol, arolygiad byr a gafwyd y tro hwn, ac roeddem yn hynod falch o farn annibynnol a oedd yn cadarnhau ein bod yn ysgol dda.

Cyfeiriwyd at safonau cyson dda yng nghyflawniad ac ymddygiad y disgyblion, yr addysgu, yr asesu, a rheolaeth yr ysgol. Dyfarnwyd y radd dda i bob un o'r saith cwestiwn allweddol.

Mae gennym ddisgwyliadau uchel, a teimlwn bod gennym sylfaen arbennig o dda yn Ysgol Llangybi i adeiladu arni, gan sicrhau parhad o'r safonau da, a symud ymlaen i anelu am ragoriaeth.

## Atodiad 1

### Gwybodaeth sylfaenol am yr ysgol

Enw'r ysgol	Llangybi
Math o ysgol	Naturiol ddwyieithog
Ystod oedran y disgyblion	3 – 11 mlwydd
Cyfeiriad yr ysgol	Llangybi Pwllheli Gwynedd
Cod post	LL53 6DQ
Rhif ffôn	(01766) 810564
Pennaeth	Mrs Elin Owen
Dyddiad penodi	Haf 1993
Cadeirydd y Llywodraethwyr/ Awdurdod priodol	Mrs Christine Jenkins
Arolygydd Cofrestredig	Mr D M Cray
Dyddiadau'r arolygiad	24 – 25 Ebrill 2007

## Atodiad 2

### Data a dangosyddion ysgol

Nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn									
Grŵp blwyddyn	M (call)	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6	Cyfanswm
Nifer y disgyblion	6.5	11	13	14	9	8	10	9	81.5

Cyfanswm nifer yr athrawon			
	Amser llawn	Rhan-amser	Cyferwerth ag amser llawn (call)
Nifer yr athrawon	3	1	3.5

Gwybodaeth staffio	
Cymhareb disgybl: athro (call) (ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig)	23.3:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau meithrin	6.5:1
Cymhareb disgybl: oedolyn (call) mewn dosbarthiadau arbennig	--
Cyfartaledd maint dosbarth, ac eithrio dosbarthiadau meithrin ac arbennig	26
Cymhareb athro (call): dosbarth	1:1

Canran y presenoldeb ar gyfer y tri thymor llawn cyn yr arolygiad			
Tymor	M	D	Gweddill yr ysgol
Haf 2006	98.6%	97%	98%
Hydref 2006	78.1%	93.9%	97%
Gwanwyn 2007	83.4%	97.4%	97.4%

Canran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim	5%
Nifer y disgyblion a waharddwyd yn ystod y 12 mis cyn yr arolygiad	0

### Atodiad 3

#### Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol: Diwedd Cyfnod Allweddol 1

<b>Canlyniadau Aseidiadau CA1 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2006</b>	Nifer y disgyblion yn B2	9
Gan fod nifer y disgyblion cymwys i'w hasesu ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 1 yn uwch na phedwar ond yn llai na 10, dim ond dangosyddion perfformiad cyffredinol a gynhwysir		

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 2 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth a Saesneg neu Gymraeg (mamiath) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	100%	Yng Nghymru	80.9%

#### Canlyniadau Aseidiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol: Diwedd Cyfnod Allweddol 2

<b>Canlyniadau Aseidiadau CA2 y Cwricwlwm Cenedlaethol 2006</b>			Nifer y disgyblion yn B6					13				
<b>Canran y disgyblion ar bob lefel</b>												
			D	A	F	W	1	2	3	4	5	4+
Saesneg	Aseiad athro	Ysgol							17	58	25	83
		Cenedlaethol			1		1	4	15	47	32	79
Cymraeg	Aseiad athro	Ysgol							17	42	42	84
		Cenedlaethol	1				1	4	17	50	26	76
Maethem- teg	Aseiad athro	Ysgol							17	42	42	84
		Cenedlaethol			1		1	3	15	47	32	79
Gwyddon- aeth	Aseiad athro	Ysgol							17	42	42	84
		Cenedlaethol			1			2	11	51	35	86

Canran y disgyblion yn cyrraedd lefel 4 o leiaf mewn mathemateg, gwyddoniaeth, a naill ai Saesneg neu Gymraeg (mamiath) yn ôl aseiad athro			
Yn yr ysgol	83.3%	Yng Nghymru	74.3%

- D Disgyblion yn cael eu heithrio dan drefniadau statudol o ran neu'r cyfan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol
- A Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel oherwydd absenoldeb
- F Disgyblion sydd wedi methu cofrestru lefel am resymau heblaw am absenoldeb
- W Disgyblion sy'n gweithio tuag at lefel 1

### Atodiad 4

#### Sail tystiolaeth yr arolygiad

Treuliodd tri arolygydd gyfanswm o bum diwrnod arolygydd yn yr ysgol, a chyfarfod fel tîm cyn yr arolygiad.

Ymwelodd yr arolygwyr hyn â:

- ugain o wersi neu wersi rhannol;
- phob dosbarth;
- addoli ar y cyd; ac
- Ystod o weithgareddau allgyrsiol.

Cafodd aelodau o'r tîm arolygu gyfarfodydd gyda:

- staff, llywodraethwyr a rhieni cyn i'r arolygiad ddechrau; ac
- uwch reolwyr, athrawon, staff cymorth a staff gweinyddol a grwpiau o ddisgyblion yn ystod yr arolygiad.

Bu'r tîm hefyd yn ystyried:

- adroddiad hunan-arfarnu'r ysgol;
- tri deg a phedwar o ymatebion i holiadur rhieni;
- dogfennaeth gynhwysfawr a ddarparwyd gan yr ysgol cyn ac yn ystod yr arolygiad; ac
- ystod eang o waith disgyblion yn y gorffennol a heddiw.

Cafodd y tîm arolygu gyfarfodydd gyda'r staff a'r llywodraethwyr ar ôl yr arolygiad.

## Atodiad 5

### Cyfansoddiad a chyfrifoldebau'r tîm arolygu

Arolygydd	Math	Agweddau
Mr D M Cray	A Cof	Cyd-destun; Crynodeb; Argymhellion; Atodiadau Cwestiynau allweddol 1;5;6 a 7
Mrs SA Taylor	Tîm	Cwestiynau allweddol 2;3 a 4
Mr W Owen	Lleyg	Cyfrannu at gwestiynau allweddol 1; 3; 4 a 7

**Enwebai'r ysgol:** Mrs Elin Owen

**Contractwr:** Arolygiadau Deheubarth Inspections; Afallon; Heol Llandeilo; Gorslas; Llanelli; SA14 7LU.

### Cydnabyddiaeth

Hoffai'r arolygwyr a fu'n ymweld â'r ysgol ddiolch i'r llywodraethwyr, i'r pennaeth a'r staff, am y cydweithrediad a'r cwrteisi a roddwyd iddynt yn ystod yr arolygiad.